CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn yr Hen Ysgoldy, Llangoedmor, nos Lun 6 Tachwedd 2017**

Presennol: Cadeirydd Cyng I Davies, Cyngr Mrs Amanda Edwards, Ken Symmons, Mrs Kay Morgan, Mrs Eleri Davies, Hywel Davies

CS Clive Davies

Clerc

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**
Roedd ymddiheuriadau wedi dod oddi wrth y Cyng Mrs N Redmond.

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**
Datgelodd y Cadeirydd fuddiant rhagfarnol mewn llythyr oddi wrth Telemat (Gohebiaeth). Datgelodd y Cyng Mrs A Edwards fuddiant personol mewn cyllid ar gyfer Cinio Nadolig yr Henoed (Digwyddiadau).

**4. Materion Personol**
Darllenodd y Cadeirydd nodyn o ddiolch oddi wrth y Clerc a'i gŵr am y rhodd garedig oddi wrth y Cynghorwyr.

Soniodd y CS Clive Davies am farwolaeth Mr Melfydd George a oedd yn adnabyddus iawn yn yr ardal.

**5. Ceisiadau Cynllunio**
A170944 Cadw'r annedd bresennol a'r modurdy arfaethedig gan gynnwys gwaith cysylltiedig â Phen-y-daith, Glanarberth, Llechryd.
Ar ôl trafodaeth, cytunodd Cyngor Cymuned Llangoedmor, gyda dau'n atal eu pleidlais, i gefnogi'r cais.

A170963 Amrywio amod 2 yng nghaniatâd cynllunio A120113 a chaniatâd cynllunio A150925 (cynlluniau wedi'u diwygio) a dileu amodau 7, 8 a 9 yng nghaniatâd cynllunio A120113 (Cod ar gyfer cartrefi cynaliadwy), Bwthyn Blaenwenen, Llangoedmor.
Cytunodd Cyngor Cymuned Llangoedmor i gefnogi penderfyniad y swyddog cynllunio, cyn belled na fyddai dim newid yn y raddfa gyffredinol a chynllun a safle'r annedd fel y gwelir yn y ceisiadau gwreiddiol, gan mai ychydig wybodaeth oedd ganddynt am y Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy.

Llythyr oddi wrth Dyfed Elis-Gruffydd a Sian Bowen ynglŷn â'r mast
Roedd y llythyr wedi cyrraedd ar ôl i'r Cyngor ymateb i'r cais. Cytunodd y Cyng Mrs A Edwards yn garedig i ddrafftio ymateb yn Gymraeg ar gyfer y Clerc.

Cadarnhau nad oedd Mrs J Davidson ar gael ar unwaith i siarad â One Planet Developments. Byddai’r Clerc yn cysylltu â hi’n ddiweddarach.

*Rhestr o gynlluniau wedi’u cymeradwyo sy’n dal mewn grym*
Roedd y CS Clive Davies wedi darparu rhestr yn y cyfarfod blaenorol a’r Cynghorwyr wedi darparu’r wybodaeth a oedd ganddynt am waith ar y rhestr.

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sirol**
Dywedodd y CS Clive Davies y byddai’n cyfarfod â Thîm Cynllunio’r Dyfodol i fynd drwy’r Rhestr o Gynlluniau wedi’u Cymeradwyo sydd mewn grym i fynd â sylwadau ymlaen i’r adolwg LDP. Dywedodd y byddai ef a Ben Lake AS yn Neuadd y Cwrwgl ar 17.11.17 ar gyfer meddygfa. Diolchodd i’r Cyngor am y ddogfen ar ddarparu llwybr troed y byddai’n ei chyflwyno yn nhrafodaeth y Cyngor ar y gyllideb. Nododd gais y Cyngor am ofyn i uwch Swyddog Priffyrdd gerdded y llwybr gyda’r Cynghorwyr. Gofynnodd a fyddai angen unrhyw ddulliau rheoli traffig, megis llinellau melyn ac amserau aros, yn y naill bentref neu’r llall gan ei fod i drafod hyn gyda swyddogion. Dywedodd bod cais arall Un Blaned wedi ei wneud yn y ward. Diolchwyd i’r Cyng Sirol am ei amser ac yna gadawodd y cyfarfod.

**7. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
Cynigiodd y Cyng Mrs E Davies y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir, eiliwyd gan y Cyng Mrs A Edwards, a chytunwyd yn unfrydol.

**8. Materion yn Codi**
Dim.

**9. Cyllid a Gweinyddu**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 6.11.17 | Mr E Brown | Torri porfa x 2 fis | 1,080.00 | |
| | ABACUS | Gwacau a glanhau biniau x 2 fis | 418.00 | |
| | Neuadd y Cwrwgl | Hurio’r neuadd | 16.00 | |
| | Eglwys Llangoedmor | Hurio’r neuadd | 57.00 | |
| | HMRC | Treth | 3.00 | |
| | S E Houghton | Swyddfa yn y Cartref | 25.00 | |
| 30.10.17 | LAS | Bin Olwynion | 54.12 | DU |
| | S E Houghton | Cyflog | 327.18 | AS |
| | | | 1,980.30 | |

Cynigiodd y Cyng Mrs A Edwards y dylid derbyn y taliadau. Eiliwyd gan y Cyng K Morgan a chytunwyd yn unfrydol.

*Gwasanaethau Mannau Claddu a Mynwentydd 16/17*
Cytunwyd i adhawlio swm o £600 fel yn y flwyddyn flaenorol.
GWEITHREDU: Y Clerc i ddychwelyd y ffurflen i CSC

*Penodi Llywodraethwr Ysgol am 4 blynedd*
Cynigiodd y Cyng Mrs A Edwards y dylid cyflwyno enw’r Cyng I Davies. Eiliwyd gan y Cyng H Davies a phenderfynwyd yn unfrydol.
GWEITHREDU: Y Clerc i gysylltu â CSC

*Ariannu drwy Grant*
Cyngor i Ddinasyddion – Cytunwyd bod CAB yn cynnig gwasanaeth cynghori hanfodol iawn a chytunwyd i roi cyfraniad o £200.

Ar ôl trafodaeth cytunwyd y byddai'r Cyngor yn rhoi gwybod bod arian ar gael i grwpiau pentref wneud cais amdano.

*Diweddariad HMRC/PAYE*
Roedd y Cyng Mrs A Edwards wedi mynd â'r mater ymhellach gyda HMRC a chredai, pe bae hi a'r Clerc yn cyfarfod ac yn gallu gweld cyfrif PAYE Sylfaenol y Cyngor, yna gellid cyflwyno'r wybodaeth briodol.
GWEITHREDU: Cyng Mrs A Edwards a'r Clerc i gyfarfod.

*Cais oddi wrth Ms Laura Holder i gael ei chyfethol ar y Cyngor*
Ar ôl trafodaeth fer cynigiodd y Cyng Mrs A Edwards y dylai Ms L Holder gael ei chyfethol ar y Cyngor. Eiliwyd gan y Cyng E Davies a Chytunwyd yn unfrydol. Cytunwyd i wahodd Ms Holder i wasanaeth Sul y Cofio a'r chynnau'r goleuadau Nadolig. Byddai'r naill beth a'r llall wedi digwydd cyn cyfarfod nesaf y Cyngor.
GWEITHREDU: Y Clerc i roi gwybod i Ms Holder a CSC am y cyfethol.

*Cais y Clerc am gynnydd yn y golofn gefn 17 (£9.237) o 1.11.17 yn unol â'i neges e-bost dyddiedig 23.10.15*
Cynigiwyd gan y Cyng Mrs A Edwards, eiliwyd gan y Cyng Mrs E Davies a chytunwyd yn unfrydol.

*Dyfynbrisiau: Amrywiol*
*Glanhau'r bloc/cysgodfan bysiau*
Roedd un dyfynbris wedi dod oddi wrth Abacus Cleaning Services. Derbyniwyd hwn gan y Cyngor yn ddibynnol ar yr hawl i adolygu'r contract pe bae Abacus yn codi'r prisiau ym mis Ionawr 2018 fel y nodwyd yn nogfen y dyfynbris.

*Hysbysfyrddau*
Un dyfynbris yn unig oedd wedi dod ar gyfer y bwrdd, sef oddi wrth Earth Anchors. Cytunwyd i dderbyn y dyfynbris hwn o £1040 a'i ddarparu. Byddai'r Cyngor yn trefnu i'r bwrdd gael ei osod ar ôl iddo gyrraedd.
GWEITHREDU: Y Clerc i archebu'r bwrdd.

Dywedodd y Cyng K Symmons ei bod wedi siarad ag un o'r trigolion am ei ddiddordeb mewn adnewyddu'r bwrdd presennol yn y parc ceir.
GWEITHREDU: Y Cyng K Symmons i weithredu ar hyn.

*Aradr*
Nid oedd dim dyfynbrisiau wedi cyrraedd hyd yma. Byddai'r Clerc yn holi.

*Torri porfa*
Roedd un dyfynbris wedi cyrraedd. Cytunwyd y byddai gwell toriad ar y cae yn ddymunol ac y byddai hynny'n bosibl naill ai drwy dorri bob wythnos neu fynd â'r toriadau oddi yno wrth dorri bob pythefnos. Gwrthodwyd torri bob wythnos oherwydd y gost. Cyfarwyddwyd y Clerc i ddiwygio manylion y contract i ofyn am ddau ddyfynbris, sef bob pythefnos a gadael y toriadau, a bob pythefnos gan fynd â'r toriadau oddi yno a hysbysebu yn y Tivy Side. Byddai'r busnes oedd eisoes wedi rhoi dyfynbris ar sail manylion yr hen gontract yn cael ei wahodd i gynnig dyfynbris eto.
GWEITHREDU: Y Clerc i wneud hyn.

*Trac*
Roedd rheolau sefydlog yn mynnu gofyn am o leiaf 3 dyfynbris. Byddai hyn yn cael ei drafod a'r prosiect yn cael ei drafod eto yng nghyfarfod mis Rhagfyr.
GWEITHREDU: Gofyn am ddyfynbris pellach. Eitem ar agenda mis Rhagfyr.

*Cyllideb*
Roedd y Clerc wedi paratoi drafft o gyllideb a siaradodd yn fyr â'r Cyngor amdani. Awgrymodd y dylai unrhyw Gynghorydd oedd am ofyn cwestiynau gysylltu â hi cyn gynted â phosibl er mwyn iddi gael amser i ddod o hyd i'r wybodaeth angenrheidiol. Byddai'r gyllideb yn cael ei thrafod eto ym mis Rhagfyr, ac er mwyn bodloni gofynion CSC byddai angen ei chytuno erbyn cyfarfod mis Ionawr 2018 fan pellaf.

**10. Priffyrdd a Hawliau Tramwyo Cyhoeddus**
*Y Clerc i gysylltu â CSC eto ynglŷn â chyflwr y llain borfa yn Preseli View gan ei bod wedi ei malu'n ddrwg.*

*Drafft o'r ddogfen 'Llwybr Troed' wedi'i diweddaru*
Roedd y ddogfen wreiddiol wedi'i diweddaru ar ôl i'r Cyng Mrs E Davies a'r Clerc gerdded ar hyd y llwybr o Groes-y-llan i Lanarberth. Yr argymhelliad i'r Cyngor oedd cyflwyno'r ddogfen wedi'i diweddaru, a chyda chymorth y CS Clive Davies fynd at CSC a gofyn am i uwch swyddog priffyrdd gerdded y llwybrau) gydag aelodau'r Cyngor.
GWEITHREDU: Y Clerc i fynd ar ôl hyn

**11. Amwynderau**
*Dyfynbrisiau – amrywiol – delir â'r rhain dan gyllid a gweinyddu*

*Bloc Toiledau*
Dywedodd y Clerc fod un o'r goleuadau newydd wedi ei adnewyddu gan y contractiwr gan fod nam ar yr un gwreiddiol.

*Cae/Lle Chwarae*
Gosod pyst y gôl
Awgrymwyd y dylai'r Clerc gysylltu â'r cwmni a oedd wedi mynegi diddordeb mewn gwneud y gwaith ar yr aradr.

Byrddau codi sbwriel
Dywedodd y Cyng Mrs A Edwards nad oedd hyd yma wedi siarad â rhywun yn yr ysgol.

Coeden wedi cwympo yn y cae
Dywedwyd y byddai'r gangen yn y cae chwarae yn cael ei symud gan y deiliad. Roedd adran Iechyd yr Amgylchedd yn CSC wedi cysylltu â'r Clerc ynglŷn â'r 'goeden beryglus' ond wedi cael ar ddeall fod y goeden ar eiddo gerllaw ac nad oedd yn eiddo i'r Cyngor.

Nodwyd hefyd fod cwynion wedi dod am goed isel yn Preseli View. Roedd y bobl briodol nawr yn delio â hyn.

Chwistrellu
Chwistrellu'r trac – ar y gweill.

Archwiliadau gweledol wythnosol o'r lle chwarae. Cynigiodd y Cyng Mrs E Davies yn garedig iawn ymgymryd â'r dasg hon.

*Mynwent*
Archwiliad ddwywaith y flwyddyn (gwanwyn a hydref) o ddiogelwch y cofebau yn y fynwent
Yn garedig iawn cynigiodd y Cyng Mrs K Morgan ymgymryd â'r dasg hon.

**12. Prosiectau'n parhau**

**13. Digwyddiadau**
*Gwasanaeth y Cofio 11.11.17 10.45am*
Cytunwyd i dalu'r Ficer am gynhyrchu taflen y gwasanaeth. Byddai siec am £25 yn cael ei hanfon ynghyd â llythyr i ddiolch iddo.

*Goleuadau'r Nadolig 30.11.17 6pm*
Nodwyd.

*Cinio Nadolig yr Henoed* 4.12.17
Dywedodd y Cyng Mrs A Edwards fod 35 wedi archebu lle yn y cinio a disgwyliai i'r nifer godi i 40 neu 50. Byddai pawb yn talu £5 tuag at gost y pryd bwyd gan olygu diffyg o £3.50 i £5.00. Cytunwyd yn unfrydol i gyfrannu £250 i Party in the Park, a oedd yn trefnu'r digwyddiad.

**14. Adroddiadau cyfarfodydd**
Dim.

**15. Gohebiaeth + Gohebiaeth e-bost**

Telemat – cynigiwyd arolwg o'r gwasanaethau.

*Aeth y Cyng I Davies allan o'r ystafell* tra oedd y Clerc yn darllen llythyr oddi wrth ddarparwr cymorth TG y Cyngor. Nodwyd y gwasanaethau a gynigid gan Telemat i gyfeirio atynt yn y dyfodol.

Gohebiaeth a nodwyd

Arolwg 2018 o etholaethau seneddol yng Nghymru – dyddiad olaf i ymateb 11 Rhagfyr 2017

Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion – dyddiad cau 14 Rhagfyr 2017
CSC: Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Wastraff – Cynghorau Cymuned – dyddiad cau 22 Rhagfyr 2017

Gwobrau Cenedlaethol Arfer Arloesol Un Llais Cymru 2018 dyddiad cau 25 Chwefror 2018

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru – Sioeau Ffordd 2017

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru: Cynllun Corfforaethol Drafft

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru - Calon Tân Rhifyn 1 hydref 2017

Newyddion y Comisiwn Elusennau – Hydref 2017

FW: Cyllideb Ddrafft - Adroddiad Polisi Trethi Cymru - Cyfraddau a Bandiau

Cynnig Argraffu Cymunedol

Un Llais Cymru - Delweddau o Gynllunio yng Nghymru – Cystadleuaeth i Ddarlunio Cymru-

Gwahoddiad i gyfarfod y Fforwm Trethi 12-2pm, 6 Dydd Llun Tachwedd 2017

Canllaw Hanfodol i EN 1176 ac EN 1177 Cyfarpar ac Arwynebau Mannau Chwarae i Blant

**16. Cyfnewid Gwybodaeth**
Gofynnodd y Cyng Mrs K Morgan i'r Cynghorwyr edrych ar gyflwr y llwybr yn y fynwent pan fyddent yn mynd i Wasanaeth y Cofio. Teimlai fod angen ychydig waith trwsio.

Dywedodd y Cyng ei fod wedi cael cais am ddarparu bin yn y fynwent yn Llangoedmor. Dywedodd y Clerc y byddai'n rhaid iddi holi a allai'r Cyngor Ddarparu cyfarpar ar gyfer yr Eglwys, a byddai'n rhaid ymgynghori â Wardeiniaid yr Eglwys.

Nodwyd bod llawer iawn o gardfwrdd wedi'i adael y tu ôl i'r bin olwynion. Byddai'r Clerc yn gofyn i Mr Rees ei roi yn y bin pan fyddai'n ymweld â'r safle nesaf.
GWEITHREDU: Y Clerc i gysylltu â Mr Rees.

Trafodwyd y posibilrwydd o gyflwyno cyfyngiadau parcio fel y cynigiwyd gan y CS Clive Davies. Cytunwyd i fonitro'r ardal o gwmpas Neuadd y Cwrwgl hyd ar y Saith Seren gan fod ychydig ofid ynglŷn â pharcio ar y palmant, gan orfodi cerddwyr i gerdded allan ar y brif ffordd.

**17. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 4.12.17 - 7.00pm**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 9.45pm.*